**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd drwy Zoom ar 21 Ebrill 2021**

YN BRESENNOL

Cynrychiolwyr y Cyflogwr:
Y Cyng. Bryan Apsley
Y Cyng. J B Hughes
Ken Finch, Trysorydd
Gareth Owens, Dirprwy Glerc

Cynrychiolwyr y Gweithwyr:
Richard Fairhead, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân - Prospect, yn cynrychioli'r gweithwyr
Tim Lloyd, Undeb yr FBU
Duncan Stewart-Ball, Undeb yr FBU
Bob Mason, Cymdeithas y Swyddogion Tân.

Yn cynghori
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Julie Brown, Rheolwr Pensiynau
Martin Morgan, Dirprwy Reolwr Pensiynau Cronfa Bensiwn Dyfed.

Yn cofnodi
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau

1 YMDDIHEURIADAU

Kevin Gerrard, Rheolwr Pensiynau Cronfa Bensiwn Dyfed
Jane Honey, Cymdeithas y Swyddogion Tân

2 PENODI CADEIRYDD

2.1 Yn unol â'r Cylch Gorchwyl, cafodd Cadeirydd newydd ei ethol o blith y cohort o gynrychiolwyr y gweithwyr. Gan nad oedd pob un o gynrychiolwyr y gweithwyr yn bresennol, cytunwyd i enwebu Richard Fairhead i gadeirio'r cyfarfod ac y byddai'r broses o benodi Cadeirydd yn cael ei ffurfioli yn y cyfarfod nesaf pan fyddai mwy o gynrychiolwyr y gweithwyr yn bresennol.

2.2 Diolchodd y Cyng. Apsley i'r aelodau am eu cydweithrediad dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a throsglwyddodd swydd y Cadeirydd i Richard Fairhead i gadeirio gweddill y cyfarfod.

3 DATGAN BUDDIANNAU

3.1 Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2021 eu cymeradwyo'n gofnod cywir.

5 CYLCH GORCHWYL

5.1 Cafodd cylch gorchwyl diwygiedig ei gyflwyno i'r Aelodau ei gymeradwyo.

5.2 Ystyrid mai arfer dda yw adolygu'r cylch gorchwyl yn flynyddol, a nodwyd bod newid bach wedi cael ei wneud i'r cylch gorchwyl a gymeradwywyd yn 2020/21.

5.3 Roedd y gofyniad i gael panel penodiadau wedi cael ei ddisodli gan sefyllfa lle mae'r swyddogaeth hon yn cael ei chyflawni gan gynrychiolydd i'r Rheolwr Cynllun, fel y disgrifir ym mharagraffau 18 a 20.

5.4 Cadarnhaodd y PSTC MacArthur fod y cylch gorchwyl yn cael ei fonitro gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun, ac mae cylch gorchwyl Bwrdd Pensiwn Lleol Gogledd Cymru yn gyson â Byrddau Pensiwn Lleol eraill yng Nghymru.

5.5 **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cylch gorchwyl a gyflwynwyd ar gyfer 2021-22, a nodi y bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

6 CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD I ROI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF

6.1 Fe wnaeth y Rheolwr Pensiynau fynd â'r Aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am aelodaeth y cynllun, ynghyd â gwybodaeth am y canlynol:

- Sganio'r Gorwel
- Dyfarniad Booth
- Chwe Phroses Allweddol y Rheoleiddiwr Pensiynau
- Golwg Gyffredinol ar Fwletinau a Chylchlythyrau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

6.2 Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion lefelau cyfredol aelodaeth o gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân.

6.3 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod un gŵyn wrthi'n cael ei hystyried gan yr Ombwdsmon Pensiynau. Roedd y mater wedi bod yn mynd ymlaen ers tro, a chafwyd yr ohebiaeth ddiwethaf rhwng y Gwasanaeth a'r Ombwdsmon ym Mawrth 2020.

6.4 Ni ddaeth unrhyw gwynion i'r Drefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau yn ystod y cyfnod adrodd.

6.5 Cafodd yr Aelodau wybod fod Trysorlys Ei Mawrhydi, ar 12 Chwefror 2021, wedi cyhoeddi Cyfarwyddiadau Cap Taliadau Ymadael 2021 [y Cyfarwyddiadau]. Mae'r Cyfarwyddiadau'n datgymhwyso rheoliadau 3, 9 a 12 o Reoliadau Cyfyngu ar Daliadau Ymadael y Sector Cyhoeddus 2020 [Rheoliadau 2020] gan ddod i rym ar unwaith. Mae hyn yn golygu nad yw'r cap ymadael yn gymwys i daliadau ymadael a fydd yn digwydd ar 12 Chwefror 2021 neu wedi hynny.

6.6 Fel yr adroddwyd eisoes i'r Aelodau, gwnaethpwyd ymchwil gan yr ACA (Cymdeithas yr Actiwariaid Ymgynghorol) a oedd yn datgelu bod cefnogaeth "gref iawn" ymysg cyflogwyr i ddiwygio'r rheoliadau ar gyfer Cofrestru Awtomatig; yn enwedig, gostwng neu ddileu'r trothwy enillion er mwyn cynyddu niferoedd aelodau.

6.7 Nodwyd bod y llywodraeth wedi cadarnhau y bydd y cyrhaeddnod enillion ar gyfer cofrestru awtomatig yn parhau yn £10,000 am y chweched flwyddyn yn olynol, er gwaethaf galwadau gan y diwydiant i'r trothwy gael ei ostwng neu ei ddileu. Petai'r cyrhaeddnod enillion wedi cael ei ostwng, byddai'r Gwasanaeth wedi cofnodi mwy o weithwyr y system RDS yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FPS) 2015. Fodd bynnag, nodwyd bod gweithwyr cymwys yn gallu holi'r Gwasanaeth a gofyn am gael ymuno â'r cynllun.

6.8 Adroddwyd hefyd fod y Lwfans Oes Pensiynau wedi cael ei rewi ar £1,073,100 tan fis Ebrill 2026. Roedd disgwyl i'r Lwfans gynyddu £5,800 yn 2021/22, a hynny yn unol â'r 0.5 y cant o chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Nid yw'r Gwasanaeth yn gallu dweud pwy fydd yn cael eu heffeithio gan y cyhoeddiad hwn. Fodd bynnag, gofynnodd y Cadeirydd am anfon gohebiaeth at yr aelodau a allai gael eu heffeithio er mwyn sicrhau eu bod yn deall goblygiadau rhewi'r lwfans oes a sut y gallai hynny effeithio arnynt yn y blynyddoedd i ddod.

6.9 Cafodd yr Aelodau yr wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r cytundeb lleol yn ymwneud â Dyfarniad Booth. Daeth dyfarniad Booth i'r casgliad fod y lwfans criw dydd a'r lwfans hyfforddi yn cael eu hystyried yn rhai pensiynadwy pan fyddant yn cael eu talu dan drefniadau penodol. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod cyfanswm o 84 o weithwyr (cyfredol ac wedi ymddeol) o fewn cwmpas yr ymarferiad ôl-weithredol. Rhoddwyd pecynnau gwybodaeth i bob aelod y mae'r newid yn effeithio arnynt.

6.10 Nodwyd bod achos bach o dorri rheolau data wedi digwydd pan anfonwyd y pecynnau gwybodaeth. Rhoddwyd gwybod i'r Swyddog Diogelu, a datryswyd y mater gyda'r unigolion dan sylw. Rhoddodd y

PSTC MacArthur sicrwydd i'r Aelodau fod gwersi wedi cael eu dysgu, ac ar gyfer ymarferiadau pensiwn yn y dyfodol bydd mesurau'n cael eu sefydlu i atal y mater rhag digwydd eto.

6.11 Cafodd yr Aelodau wybod am y chwe phroses allweddol sy'n cael eu monitro gan y Rheoleiddiwr Pensiynau o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 fel rhan o'u harolwg blynyddol o lywodraethiant a gweinyddiaeth. Mae'r Rheoleiddiwr yn defnyddio'r prosesau allweddol hyn fel dangosyddion o berfformiad cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus.

6.12 Mae'n hanfodol fod pob ATA yn sicrhau bod y prosesau sy'n bodoli yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac, os oes angen, fod camau'n cael eu cymryd i wella perfformiad yn y chwe phroses allweddol. Ar ôl ystyried prosesau'r Gwasanaeth, fel y nodir yn yr adroddiad, roedd yr Aelodau wedi'u bodloni eu bod yn ddigonol heb fod angen unrhyw welliannau ar hyn o bryd ac roedd y Dirprwy Glerc yn cefnogi'r farn hon.

6.13 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r adroddiad;**

**(ii) bod gohebiaeth yn cael ei dosbarthu i'r holl aelodau er mwyn iddynt ddeall goblygiadau rhewi'r lwfans oes ac y gallai effeithio arnyn nhw yn y blynyddoedd i ddod.**

7 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-21

7.1 Cafodd adroddiad blynyddol drafft y Bwrdd Pensiwn Lleol ei gyflwyno i'r Aelodau i'w gymeradwyo.

7.2 Roedd yr adroddiad blynyddol yn nodi gwaith y bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo bydd yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mehefin ac yna'n cael ei gyhoeddi ar y wefan.

7.3 Nodwyd bod yr adroddiad blynyddol yn cynnwys y canlynol, yn unol â gofynion y cylch gorchwyl:

- manylion unrhyw achosion o wrthdaro rhwng buddiannau sydd wedi dod i'r amlwg mewn perthynas ag aelodau unigol o'r Bwrdd Pensiwn Lleol, a sut mae'r rhain wedi cael eu rheoli;
- manylion yr hyfforddiant a gafwyd, ac anghenion hyfforddi a nodwyd ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol;
- crynodeb o waith y Bwrdd Pensiwn Lleol, a rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod; a
- manylion meysydd pryder a adroddwyd neu a godwyd gan y Bwrdd Pensiwn Lleol, ynghyd â'r argymhellion a wnaed.

7.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020-21, i'w gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mehefin 2021.**

8 Y DIWEDDARAF GAN GRONFA BENSIWN DYFED (GWEINYDDWR CYNLLUNIAU)

8.1 Ymddiheurodd Mr M Morgan o Gronfa Bensiwn Dyfed nad oedd adroddiad ysgrifenedig wedi cael ei gyflwyno mewn pryd ar gyfer y cyfarfod; nodwyd y byddai'r adroddiad ysgrifenedig yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau yn y man.

8.2 Rhoddodd Mr Morgan wybodaeth ar lafar ynghylch nifer o brosiectau sydd wrthi'n cael eu cynnal ar yr un pryd, ynghyd â darparu gwybodaeth am faterion perthnasol wrth weinyddu buddion cynlluniau.

8.3 O ran dyfarniad y Llys Apêl, nodwyd ei bod yn hysbys y bydd aelodau'r cynllun yn cael dewis 'gohiriedig' wedi'i danategu, ond na ellir diwygio systemau meddalwedd hyd nes bydd y rheoliadau wedi cael eu diwygio a chanllawiau wedi cael eu cyhoeddi. Pan fyddant ar gael, bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael gwybod am y newidiadau a'r drefn o'u cymhwyso.

8.4 Erbyn hyn, roedd gan y cyfleuster 'Fy Mhensiwn Ar-lein' 933 o ddefnyddwyr wedi cofrestru, allan o 1823 a oedd yn bosibl. Nodwyd bod un aelod wedi dewis parhau i dderbyn cyfriflenni papur. Nodwyd bod nifer y rhai a oedd wedi mynd ar y cyfleuster Fy Mhensiwn Ar-lein yn ddiweddar yn dal yn eithaf isel, a chytunwyd bod angen hybu mwy ar ei fanteision ymhob rhan o GTAGC.

8.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

9 BWRDD CYNGHORI'R CYNLLUN

9.1 Rhoddodd y PSTC MacArthur wybod i'r Aelodau mai'r prif bwnc trafod yn y cyfarfod diwethaf o Fwrdd Cynghori'r Cynllun fu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr her gyfreithiol i'r amddiffyniad trosiannol. Rhoddodd y PSTC gyflwyniad i godi ymwybyddiaeth am y mater a'r sefyllfa o fewn y Gwasanaeth.

9.2 Roedd y cyflwyniad yn rhoi golwg gyffredinol ar y sefyllfa, ac yn dilyn cadarnhad y Llywodraeth y byddai'r rhwymedi yn gymwys i bob cynllun yn y sector cyhoeddus, fe wnaeth Trysorlys Ei Mawrhydi gynnal ymgynghoriad rhwng Gorffennaf a Hydref 2020 i geisio safbwyntiau ynglŷn â sut beth allai'r rhwymedi fod. Roedd hyn yn cadarnhau mai'r rhwymedi fyddai'r dewis diofyn, er nad yw'r rheolau manwl sydd eu hangen i'w weithredu ar gael eto.

9.3 Nodwyd bod niwed uniongyrchol yn cael ei ystyried yn gymwys i'r ffordd o drin aelod sydd wedi ymddeol neu a fydd yn ymddeol cyn i'r rhwymedi gael ei roi ar waith (disgwylir ym mis Hydref 2023) ac i'r ffordd o drin aelodau a allai ymddeol ar sail afiechyd cyn y dyddiad hwn.

9.4 Trafodwyd y mater o gyfathrebu'r newidiadau a'r effeithiau posibl ar aelodau, a chadarnhaodd y PSTC MacArthur y bydd rhagor o ddeialog yn digwydd gyda chynrychiolwyr Undeb yr FBU er mwyn trafod beth fyddai'r ffordd orau o roi gwybod i'r aelodau. Nodwyd bod y Briff Wythnosol yn cynnwys gwybodaeth am bensiynau, a chaiff llythyr ei anfon at bob aelod unwaith y bydd y gwaith paratoi wedi cael ei wneud gan y gweinyddwr pensiynau i ganfod pwy sydd dan sylw; cadarnhaodd Mr Morgan fod hyn yn mynd ymlaen.

9.5 Gofynnwyd i'r Aelodau nodi nad yw'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn gallu bwrw ymlaen â'r her gyfreithiol i'r amddiffyniad trosiannol oherwydd nid yw'r agweddau manwl ar y rhwymedi wedi cael eu cyhoeddi eto.

9.6 Bydd y camau nesaf yn cynnwys:

- gweithio gyda chydweithwyr ledled Cymru i sicrhau dull cyson
- casglu data er mwyn canfod y rhai sydd mewn perygl o niwed uniongyrchol
- ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Gweinyddwyr
- aros am ragor o arweiniad gan Lywodraeth y DU
- aros canlyniad achos llys pellach gan[MJ1] yr ATA ynglŷn â thrin rhai sy'n cael niwed uniongyrchol, gan gynnwys cyngor proffesiynol ar faterion treth.

9.7 **PENDERFYNWYD nodi**

**(i) yr wybodaeth a ddarparwyd;**
**(ii) y bydd strategaeth gyfathrebu yn cael ei llunio;**
**(iii) y bydd y cyflwyniad yn cael ei anfon ar e-bost at aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol.**

10 GOLWG GYFFREDINOL AR BECYN CYMORTH Y RHEOLEIDDIWR PENSIYNAU I FYRDDAU PENSIWN LLEOL

10.1 Fe wnaeth y Rheolwr Pensiynau roi cyflwyniad ar raglen y pecyn cymorth ar-lein i Wasanaethau Cyhoeddus.

10.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod rhaid i bob aelod, yn unol â chylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol, gwblhau'r cwrs cyfan cyn pen chwe mis ar ôl ymuno â'r Bwrdd. Hefyd, fe wnaeth yr aelodau argymell a chytuno yn ystod y cyfarfod ar 2 Mai 2019 y byddai'r dysgu'n cael ei ailadrodd bob dwy flynedd. Felly, nod y cyflwyniad hwn oedd bodloni'r argymhelliad y cytunwyd arno drwy ddarparu golwg gyffredinol ar y modiwlau.

10.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, ac y bydd y cyflwyniad yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau ar e-bost.**

11 Y GOFRESTR RISGIAU – MAES RISG 1 GWEITHREDIADAU

11.1 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod y Rheoleiddiwr Pensiynau yn argymell bod aelodau Byrddau Pensiwn Lleol yn ystyried ac yn adolygu eu Cofrestr Risgiau yn ystod pob cyfarfod o'r Bwrdd.

11.2 Roedd seiber-droseddu yn parhau i sgorio'n uchel fel risg. Fodd bynnag, nodwyd bod gan y Gwasanaeth gynlluniau cynhwysfawr ar gyfer diogelu data, rhwydweithiau a dyfeisiau.

11.3 **PENDERFYNWYD nodi'r maes risg gweithrediadau ar y Gofrestr ac y bydd unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau'n cael eu hymgorffori yn y gofrestr ac y bydd y ddogfen ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod**.

12 ANGHENION HYFFORDDI

12.1 Yn ogystal â chwe modiwl ar Reoleiddio Pensiynau a fydd, fel y trafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod, yn cael eu hailgyflwyno dros yr ychydig gyfarfodydd nesaf, cytunwyd y gall yr aelodau, os ydynt eisiau hyfforddiant ar feysydd penodol eraill, gysylltu â'r Rheolwr Pensiynau a fydd yn gwneud y trefniadau angenrheidiol.

13 MATERION I'W CYFEIRIO AT YR ATA

13.1 Bydd y cyfarfod nesaf o'r ATA yn cael ei gynnal ar 21 Mehefin. Cadarnhaodd y PSTC MacArthur y bydd yr eitemau a ganlyn ar yr agenda:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr her gyfreithiol i'r amddiffyniad trosiannol
- cylch gorchwyl diwygiedig
- adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2020-21.

13.2 Cytunwyd nad oedd angen cyfeirio unrhyw fater arall at yr ATA.

14 UNRHYW FATER ARALL

14.1 Dim.